Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

" Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Ebrill 2007 — Rhifyn 4

Yn y Rhifyn Hwn:

• Rhwystro 372 o wrthdrawiadau'r flwyddyn •Cadeirydd newydd i AIRSO •Gorfodi'r Ddeddf ar Ffonau Symudol •Beicwyr yn dychwelyd •Ffrwyth ymgynghoriad y DSA •Ffitrwydd i yrru •Ladyman yn dadlennu ailwampio ar brofion a hyfforddiant i yrwyr •ROADTest •Corff newydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd •Gwiriadau'r CRB •Strategaeth i ddiogelwch ar y ffyrdd i blant •Achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus •TyreSafe •Wythnos Fyd-eang y Cenhedloedd Unedig ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd

Cynlluniau diogelwch ar y ffyrdd yn rhwystro 372 o wrthdrawiadau'r flwyddyn

Erbyn hyn, mae Cynllun Grantiau gan Lywodraeth y Cynulliad i helpu awdurdodau lleol i dalu am ragor o brosiectau diogelwch ar y ffyrdd yn arbed naw deg o bobl y flwyddyn, ar gyfartaledd, rhag cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yn ôl adroddiad gan ymgynghorwyr i Lywodraeth y Cynulliad, mae'r Grant Diogelwch Ffyrdd lleol blynyddol sy'n helpu i dalu am waith diogelwch ar y ffyrdd yn cynnwys prosiectau peirianegol sydd, ar gyfartaledd, yn rhwystro 372 o wrthdrawiadau difrifol ar ffyrdd Cymru bob blwyddyn – ac yn arbed dros £32 miliwn y flwyddyn i gymdeithas.

Wrth roi ei sylwadau ar hyn, dywedodd y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, Andrew Davies: "Mae'r cynllun yn ffordd effeithiol o arbed bywydau ar ffyrdd Cymru ac mae ei ganlyniadau'n galondid mawr i mi. Mae angen i ni'n awr adeiladu ar yr adroddiad a rhannu ei ffrwyth gydag Awdurdodau Lleol ledled Cymru er mwyn hybu'r arferion gorau a chynyddu hyd yr eithaf y manteision posibl a allai ddeillio o fuddsoddi yn y dyfodol."

Cyflwynwyd y Grant Diogelwch Ffyrdd Lleol yn 2000 oherwydd pryderon ynghylch diffyg cyllid i weithredu mesurau diogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys cynlluniau peirianegol fel arafu traffig, croesfannau i gerddwyr, ac arwynebau gwrth-lithro.

Yn yr adroddiad ymgynghorwyr o Halcrow Group Cyf. i Lywodraeth y Cynulliad, fe ddadansoddwyd cyflwyniadau diweddaraf yr awdurdodau lleol a gwerthuswyd effaith y cynlluniau peirianegol mwy eu maint ledled Cymru a gawsai eu hariannu dan gynllun y Grant rhwng 2000 a 2005. Mae cyfanswm o £43 miliwn wedi'i dalu i awdurdodau lleol o dan y rhaglen honno i gynnal prosiectau sydd hefyd yn cynnwys mesurau hyfforddi, cyhoeddusrwydd cyffredinol, ac addysgu diogelwch ar y ffyrdd i blant.

Gwnaeth yr adroddiad astudiaeth fanwl o ganlyniadau 390 o'r cynlluniau peirianegol mwyaf a gostiai fel rheol dros £15,000 yr un ac a gawsai eu gweithredu ers 2000. Fe gostiodd y rheiny gyfanswm o £16.1 miliwn. Gyda'i gilydd, 58 y cant oedd cyfartaledd y gostyngiad blynyddol yn nifer y gwrthdrawiadau a achosodd anafiadau personol yn lleoliad y cynlluniau. Sylwodd yr adroddiad oedd mai'r cynlluniau a sicrhaodd y gostyngiad mwyaf yn nifer y gwrthdrawiadau difrifol oedd parthau â therfyn o 20mya, cylchfannau bach, gwelliannau i weledd ffyrdd, a goleuadau traffig newydd.

Gan ddefnyddio'r grant, cynhaliodd awdurdodau lleol 240 o weithgareddau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd am ddiogelwch ar y ffyrdd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Anelwyd rhyw 107 o'r rheiny at grwpiau o blant cyn-ysgol a disgyblion ysgolion cynradd.

Mae adroddiad Halcrow wedi'i ddosbarthu i awdurdodau lleol yng Nghymru i hyrwyddo arferion da ac i'w llongyfarch ar ddefnyddio'r Grant yn effeithiol.

Cadeirydd newydd AIRSO

Cadeirydd newydd Cymdeithas Swyddogion Cynorthwyol Diogelwch ar y Ffyrdd yw Lyn Morris, Swyddog Cynorthwyol Diogelwch ar y Ffyrdd yn adran gwasanaethau technegol Cyngor Sir Caerfyrddin. Meddai: "Dyma gymdeithas genedlaethol fy mhroffesiwn, ac am fod hon yn swydd nodedig iawn, mae'n anrhydedd fawr."

"Gan mai fi yw Cadeirydd cyntaf erioed AIRSO yng Nghymru yn ystod 42 flynedd ei bodolaeth, rwyf wedi penderfynu mai fy nghenhadaeth ar gyfer fy mlwyddyn yn y swydd fydd cynyddu amlygrwydd AIRSO yng Nghymru a sefydlu rhai partneriaethau cryf ag amrywiol fudiadau yn y maes hwn yng Nghymru.

"Fe gynhalion ni seminar cyntaf AIRSO ar ddiogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru fis Tachwedd diwethaf yn Sir Gaerfyrddin ac rydyn ni wrthi'n cynllunio seminar pellach ar ddiogelwch ar y ffyrdd, cyfarfod cyffredinol, a chynhadledd ar ddiogelwch ar y ffyrdd mewn gwahanol leoedd yng Nghymru eleni."
Ymunodd Lyn ag uned diogelwch ar y ffyrdd y Cyngor ym mis Awst 2005 pan symudodd hi i Sir Gaerfyrddin o Essex.

Ffurfiwyd AIRSO ym 1965 i ddarparu cymorth i unigolion sy'n gweithio ym maes diogelwch ar y ffyrdd, yn enwedig o fewn y diwydiant ac fel cyfrwng i gydweithwyr proffesiynol gyfnewid barn. Ers hynny, mae aelodaeth AIRSO wedi datblygu ac mae'n agored i unrhyw un y mae ei (g)waith yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd.
Daw'r aelodau o drawstoriad eang o gwmnïau cludiant masnachol, rheoli fflydoedd, hyfforddi gyrwyr, mudiadau annibynnol a chyrff llywodraeth leol sy'n ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd, y lluoedd arfog, y gwasanaethau brys ac asiantaethau gorfodi. I gael gwybod rhagor, ewch i: www.airso.org.uk

Ymgyrch Cymru-gyfan i Orfodi'r Ddeddf ynghylch Ffonau Symudol

Ar ran pedwar Heddlu Cymru, fe lansiodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Gwent, Bill Horne, ymgyrch Cymru-gyfan i Orfodi'r Ddeddf ynghylch Ffonau Symudol yng ngwasanaethau Magwyr ddydd Mawrth, Mawrth 13, 2007.

Am bythefnos, yr oedd pob Heddlu wedi erlyn gyrwyr yn ddiwyd am ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru. Ers Chwefror 27, 2007, mae defnyddio ffôn symudol wrth yrru wedi bod yn drosedd ardystiadwy ac iddi ddirwy o £60 a 3 phwynt cosb.

Delir i weld gyrwyr ar ffyrdd Cymru'n gwneud ac yn derbyn galwadau ac yn tecstio drwy SMS. Gan fod yr heddlu'n cymryd y broblem o ddifrif, byddant yn targedu'r gyrwyr hynny bob awr o'r dydd ar hyd y flwyddyn.

Ni ddylai pobl sy'n dymuno osgoi cael tri phwynt am ddefnyddio ffôn symudol yn eu llaw wrth yrru gael eu twyllo i feddwl ei bod hi'n gwbl ddiogel defnyddio pecynnau dwylo-rhydd wrth y llyw. Er nad yw defnyddio ffôn dwylo-rhydd yn drosedd penodol, gall yr heddlu wirio cofnodion ffôn mewn achosion o yrru'n ddiofal a gyrru'n beryglus a'u defnyddio'n dystiolaeth bod sylw'r gyrrwr wedi'i dynnu. Gall hyn arwain at ddedfrydau llymach am fod defnyddio ffôn symudol wrth yrru yn debyg o gael ei ystyried yn "amgylchiad gwaethygol" gan y llysoedd.
Mae dogfennau cyfarwyddyd di-dâl RoSPA yn cynnwys cymorth gyda pholisïau ar ddefnyddio ffonau symudol.
http://www.rospa.com/roadsafety/info/workmobiles.pdf

Beicwyr yn dychwelyd

Caiff beicwyr ddychwelyd i stryd siopa brysuraf Caerdydd mewn ymgais i gael rhagor o bobl allan o'u ceir. Bydd y cynllun peilot dwy-flynedd yn Heol-y-Frenhines yn golygu y gall pobl feicio yno rhwng 4pm a 10am.

Dywedodd llefarydd ar ran Cyngor Caerdydd y byddai'r peilot yn caniatáu gorfodi mwy effeithiol y tu allan i'r oriau arfaethedig, ac yn cwtogi cymaint â phosibl ar unrhyw darfu ar ymwelwyr â chanol y ddinas.

Ffrwyth ymgynghoriad y DSA

Ar ôl ymgynghori, mae'r Gweinidogion wedi penderfynu cyflwyno pecyn o fesurau i wella'r ffordd y mae'r Asiantaeth Safonau Gyrru (y DSA) yn cynnal ei fusnes er mwyn iddi roi gwell gwasanaeth a gwella ansawdd yr asesiadau y mae'n eu cynnig.

Bydd y newidiadau hefyd yn helpu i gynyddu diogelwch ar y ffyrdd ac i sicrhau y caiff costau'r gwasanaethau y mae'r DSA yn eu darparu eu hadennill yn deg ac yn effeithlon. Ac eithrio lle y nodir fel arall, daw'r newidiadau i rym ar 2 Ebrill 2007.

http://www.dsa.gov.uk/Documents/consult/Responses/RESPONSE%20TO%20CONSULTATION%20REPORT%20%20FINAL.pdf

Ffitrwydd i yrru

Dr Tim Carter, Prif Ymgynghorydd Meddygol yr Adran Drafnidiaeth, yw awdur Fitness to Drive: A Guide for Health Professionals, caffaeliad hanfodol i bob gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd i'w helpu i roi cyngor dilys ynghylch ffitrwydd i yrru.

Er mai ar gyfer swyddogion iechyd proffesiynol yn bennaf yr ysgrifennwyd y llyfr, ceir ynddo hefyd wybodaeth werthfawr i eraill sy'n ymwneud ag iechyd a ffitrwydd i yrru, gan gynnwys ymgynghorwyr diogelwch ar y ffyrdd, yswirwyr, rheolwyr fflydoedd a hyfforddwyr gyrru. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i yrwyr â phroblemau iechyd sy'n dymuno deall pa mor berthnasol yw eu cyflwr i yrru a sut mae ei asesu.

Mae Fitness to Drive: A Guide for Health Professionals wedi'i gymeradwyo gan Gymdeithas Feddygol Prydain, ei Fwrdd Gweithgareddau Proffesiynol a'i Fwrdd Gwyddoniaeth. Ei bris yw £17.95. Gwefan: www.rsmpress.co.uk

Ladyman yn dadlennu ailwampio ar brofion a hyfforddiant i yrwyr

Yng Nghyngres RoSPA ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd ym mis Chwefror, fe gadarnhaodd y Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd, Dr Stephen Ladyman, y bydd ailwampio llwyr ar hyfforddi a phrofi gyrwyr. Am y tro cyntaf, fe nodwyd canllawiau newydd ar gyfer addysgu pobl ifanc am sgiliau gyrru'n ddiogel, a disgwylir cynnal ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni.

Mae cyhoeddiad yr Arolwg Tair-Blynedd o Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd yn argymell ymagweddu o'r newydd at addysgu pobl ifanc am ddiogelwch ar y ffyrdd ac am eu haddysgu i yrru. Bydd yn cynnwys cyflwyno fframwaith newydd o gymwyseddau a gwybodaeth, maes llafur hyfforddi modern, a meini prawf asesu newydd.

Meddai Dr Ladyman: "Mae hyfforddwyr gyrru'n gwneud gwaith da iawn ar hyn o bryd, ond dyw'r systemau y mae gofyn iddyn nhw eu gweithredu bellach ddim yn cyd-fynd â gofynion ein byd modern. Mae addysgu gyrwyr ifanc yn fater difrifol. Fe wyddon ni fod gyrwyr ifanc, yn y damweiniau angheuol lle'r oedd modd dweud pwy oedd ar fai, bron 12 gwaith yn fwy tebyg o fod ar fai nag oedd gyrwyr hŷn.

"Er i'r Asiantaeth Safonau Gyrru (y DSA) wneud llu o newidiadau pwysig dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rhaid i ni newid canfyddiadau pobl ynghylch gyrru a diogelwch ar y ffyrdd. Yr unig ffordd o wneud hynny yw addysgu pobl ifanc am beryglon gyrru'n wael mewn ffordd wahanol sy'n dylanwadu'n bendant ar eu hymddygiad a'u harferion tymor-hir. Ac mae hynny'n golygu cyflwyno system fwy trylwyr o hyfforddi a phrofi.

"Mae'n Hadolygiad Tair-Blynedd yn disgrifio'r hyn y dymunwn ei gyflawni ac rwy'n falch bod y DSA wrthi'n manylu ynghylch sut y byddwn ni'n gwneud hynny." http://www.dft.gov.uk/pgr/roadsafety/strategytargetsperformance/2ndreview/screen

ROADTest

ROADTest yw Uwch-Brawf Gyrru Galwedigaethol RoSPA. Mae'n gymhwyster gyrru unigryw sydd wedi'i achredu gan BTEC ac wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno ar y cyd gan RoSPA a DriveTech (UK) Cyfyngedig. Dyma'r uwch-brawf gyrru cyntaf i gael ei gynllunio'n unswydd ar gyfer gyrwyr busnes.

fod cyfraddau damweiniau gyrwyr ceir a faniau cwmni 35-50 y cant yn uwch na chyfraddau gyrwyr preifat, mae'r prawf wedi'i gynllunio i ostwng nifer y gwrthdrawiadau sy'n cynnwys pobl sydd ar y ffordd gyda'u gwaith. Mae'r ffigurau'n dangos bod gyrwyr medrus yn rhyw 25 y cant yn llai tebyg o gael damwain.
I lwytho'r daflen i lawr, cliciwch ar y cyswllt: http://www.rospa.com/roadtest/index.htm

Lansio corff newydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd

Mae corff newydd, yr IAM Motoring Trust, wedi ymgymryd â gwaith yr AA Motoring Trust.
Yr ymddiriedolaeth newydd fydd cangen ymchwil ac eiriolaeth yr Institute of Advanced Motorists ac mae ganddi gyllid ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae hi wedi cyhoeddi rhaglen o ymchwil polisi sy'n ceisio diogelu a hyrwyddo buddiannau holl ddefnyddwyr y ffyrdd, ac wedi dweud y bydd yn cyfrannu'n "egnïol" i'r ddadl genedlaethol ynghylch polisïau cludiant.
Gellir cael gwybod rhagor yn: www.iamtrust.org.uk

Gwirio cofnodion troseddol hyfforddwyr gyrru

Dechreuwyd gwirio cofnodion troseddol hyfforddwyr gyrru er mwyn cynyddu diogelwch y rhai bregus sy'n dysgu gyrru.

Yn ôl Prif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Gyrru, Rosemary Thew, mae cyflwyno gwiriadau troseddol yn cyfnerthu'r rheol y dylai hyfforddwyr fod yn bobl 'addas a phriodol' i dreulio amser ar eu pennau eu hunain gyda phobl ifanc yn eu harddegau.

"Fel rheol, caiff gyrwyr y rhan fwyaf o'u hyfforddiant gyrru mewn sefyllfa un-i-un mewn car. Yn aml, byddan nhw'n dal i fod yn eu harddegau. Teimlwn ei bod hi'n briodol i wiriadau gael eu gwneud o hanes troseddol hyfforddwyr yn yr un ffordd ag sy'n digwydd i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Bydd hynny'n rhoi rhagor o sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch diogelwch ac yn cynyddu proffesiynoldeb y diwydiant hyfforddi gyrru," meddai.

O 12 Mawrth ymlaen, bydd angen i unrhyw un sy'n gwneud cais i fynd yn hyfforddwr ddatgelu ei record droseddol. Caiff y rhai sydd eisoes ar Gofrestr y DSA o Hyfforddwyr Gyrru Cymeradwy hefyd eu gwirio dros y ddwy flynedd nesaf.
Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael ar Linell Wybodaeth y DSA ynghylch Gwirio Cofnodion Troseddol ar 0115 901 2801..

Strategaeth i ddiogelwch ar y ffyrdd i blant2007

Mae'r strategaeth hon, sydd newydd ei chyhoeddi, yn ystyried y meysydd y mae'n flaenoriaeth gweithredu ymhellach ynddynt, gan gynnwys y rhai lle mae llai o gynnydd wedi'i wneud o ran cyrraedd y targed. Mae prif ran y strategaeth yn ymwneud â'r meysydd y mae'r DfT yn gyfrifol amdanynt. Mae hi hefyd yn crisialu'r sefyllfa yng Nghymru a'r Alban.

Mae'r strategaeth yn ystyried mesurau i wella diogelwch plant ar y ffyrdd yn nhermau chwe thema wahanol, sef addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes; cyhoeddusrwydd; peirianneg, amgylchedd a chynllunio priffyrdd; peirianneg cerbydau a diogelwch eilaidd; deddfwriaeth a gorfodaeth; a theithiau i'r ysgol. Ymhlith y materion cyffredinol sy'n effeithio ar bob un ohonynt – ac y mae angen eu cymryd i ystyriaeth wrth ddwyn y gweithredoedd yn eu blaen – mae adfywio a gweithio mewn partneriaeth.
http://www.dft.gov.uk/pgr/roadsafety/child/childrdsafetystrategy2007?version=1

Troseddau o ran achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus

Mae'r **Panel Ymgynghorol ar Ddedfrydu** wrthi'n ymgynghori ynghylch dedfrydu am amrywiaeth o droseddau lle'r achosir marwolaeth drwy yrru'n beryglus. Cymerir ffrwyth yr ymgynghoriad i ystyriaeth wrth i'r Panel lunio'i gyngor i'r Cyngor Canllawiau Dedfrydu.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan fod Deddf Diogelwch ar y Ffyrdd 2006 yn creu dau drosedd cwbl newydd, sef achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal neu'n anystyriol (y gosb fwyaf yw 5 mlynedd o garchar) ac achosi marwolaeth drwy yrru a'r gyrrwr heb ei drwyddedu, wedi'i anghymhwyso neu heb ei yswirio (y gosb fwyaf yw 2 flynedd o garchar). Y dyddiad cau i sylwadau yw 19 Ebrill.

Y papur ymgynghorol ar droseddau lle'r achosir marwolaeth drwy yrru'n beryglus

TyreSafe

TyreSafe yw enw newydd Cyngor y Diwydiant Teiars, mudiad dielw ac anfasnachol sy'n gyfrifol am gynyddu ymwybyddiaeth o beryglon teiars sy'n ddiffygiol neu wedi treulio. Y corff hwn a'i weithgareddau sy'n cael y clod am ostwng nifer y teiars diffygiol ym Mhrydain dros y 16 mlynedd diwethaf o 20% i 12% heddiw. Ei wefan yw www.tyresafe.org.uk

Wythnos Fyd-eang Gyntaf y Cenhedloedd Unedig ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd

Gan mai pobl ifanc yw'r prif grŵp sydd mewn perygl o gael eu lladd, neu eu hanafu, neu o gael anabledd, ar y ffordd, thema'r Wythnos fydd "defnyddwyr ifanc y ffyrdd". Ac er mai ar ddefnyddwyr ifanc y ffordd y canolbwyntir, y gobaith yw y bydd y gweithredoedd a fydd yn deillio o'r Wythnos o fantais i bawb sy'n defnyddio'r ffyrdd. Rhagwelir cynnal nifer fawr o ddigwyddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ar hyd a lled y byd yn ystod yr Wythnos, sef rhwng **23 a 29 Ebrill 2007**. Bydd llu o bartneriaid, gan gynnwys llywodraethau, asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig, sefydliadau anllywodraethol a'r sector preifat, yn cymryd rhan yn y digwyddiadau.

Prif amcanion Wythnos Fyd-eang Gyntaf y Cenhedloedd Unedig ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd 2007 yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o effaith anafiadau traffig ffyrdd ar gymdeithas, gan dynnu sylw at y peryglon i ddefnyddwyr ifanc y ffyrdd.
- Hybu gweithredu ynghylch ffactorau allweddol sy'n cael effaith o bwys ar rwystro anafiadau mewn damweiniau, sef helmedau, gwregysau diogelwch, yfed a gyrru, goryrru ac isadeiledd.

Mae slogan yr Wythnos, "Nid Damwain yw Diogelwch ar y Ffyrdd", yn tynnu sylw at y ffaith nad yn ddamweiniol y digwydd diogelwch ar y ffyrdd, ond drwy ymdrechion pwrpasol llu o unigolion a llawer rhan o gymdeithas.
http://www.who.int/roadsafety/week/en/

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2007 gan RoSPA Cymru – Cedwir Pob Hawl. Golygydd: Steve Baker, RoSPA
sbaker@rospa.com

02920 250 600